## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifyddu carbon ac unedau carbon at ddibenion cyfrifo cyfrif allyriadau net Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Diben Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na gwaelodlin 1990. Mae adran 33 yn darparu mai cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod yw swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr, minws unrhyw unedau carbon a gredydir i'r cyfrif a phlws unrhyw unedau carbon a ddidynnir o'r cyfrif yn ystod y cyfnod.

Mae rheoliad 3 yn diffinio pa unedau carbon y caiff eu cynnwys yng nghyfrif allyriadau net Cymru.

Mae rheoliad 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i agor "cyfrif credyd Cymru" ac yn darparu bod rhaid i unrhyw uned garbon sydd i'w chredydu i gyfrif allyriadau net Cymru gael ei chadw yn y cyfrif hwnnw. Ar ôl i uned garbon gael ei lleoli yng nghyfrif credyd Cymru, ni ellir ond ei thynnu allan eto er mwyn ei dileu, oni bai bod gweinyddwr y gofrestrfa wedi ei fodloni bod amodau penodol wedi eu diwallu.

Mae rheoliad 5 yn amlinellu'r ffordd y caniateir credydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru. Rhaid eu cadw yng nghyfrif credyd Cymru a rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan eu bod wedi eu credydu yn unol â rheoliad 5. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol trosglwyddo i'r "Cyfrif Dileu Gwirfoddol".

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr sy'n cynnwys manylion yr unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru ac a ddidynnir ohono ynghyd â manylion yr unedau carbon sydd wedi eu dileu yn unol â rheoliad 4.

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.